**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 17 Chwefror 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | E J King |
| A S Lewis | A Pugh | R V Smith |
| M Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing, L S Gibbard, C A Holley

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins a/ac A H Stevens

---

## 113. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr R Francis-Davies A S Lewis fudd personol â Chofnod 129 “Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol”.

2) Datganodd y Cynghorydd R V Smith fudd personol a rhagfarnol â chofnod 128 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei fod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

3) Datganodd y Cynghorydd E J King gysylltiad personol â Chofnod 130 "Fframwaith Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg”.

## 114. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022.

## 115. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 116. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 117. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnodd y Cyngorydd C A Holley dri chwestiwn mewn perthynas â chofnod 119 “Monitro Refeniw a’r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 3ydd 2021/22”.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd. Dywedodd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu mewn perthynas â:

Cwestiwn 2 “Rhowch gost ar gyfer pob un o'r llwybrau beicio”.

## 118. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Adroddiadau am y Gyllideb (Ar lafar)

Darparodd y Cynghorydd C A Holley yr adborth ar graffu cyn penderfynu mewn perthynas â'r pum adroddiad am y gyllideb.

## 119. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3ydd 2021/22.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021-2022 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1. Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau, gan gynnwys yr ansicrwydd materol fel a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

2. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir ym mharagraff 2.7 o'r adroddiad a'r defnydd o'r gronfa wrth gefn fel a nodir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad yn amodol ar unrhyw gyngor pellach gan y Swyddog Adran 151 yn ystod y flwyddyn.

3. Bydd y Cabinet yn atgyfnerthu'r angen i bob Cyfarwyddwr barhau i leihau gorwario ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod mai dim ond drwy ddibynnu'n drwm ar ad-daliad tebygol (sydd ymhell o fod yn sicr), cyllidebau wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a ddelir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru y mae'r gyllideb gyffredinol yn

cael ei chydbwyso ar hyn o bryd, a hefyd i gydnabod bod y gorwariant bron yn gyfan gwbl oherwydd pwysau COVID parhaus a ragwelir.

4. Nodi'r opsiynau dangosol a nodir ym Mharagraff 4.1 o'r adroddiad mewn perthynas â thanwariant posib ar gyfer y flwyddyn, gyda chamau gweithredu terfynol i'w cadarnhau ar alldro.

## 120. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2023/24 - 2025/26.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn manylu ar y prif dybiaethau ariannu ar gyfer y cyfnod ac yn cynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd:**

1) Argymell Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023-2024 hyd at 2025-2026 i'r cyngor fel sail ar gyfer cynllunio ariannol y gwasanaethau yn y dyfodol.

## 121. Cyllideb Refeniw 2022/23.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022-2023.

Cynigodd Arweinydd y Cyngor nifer o ddiwygiadau i'r adroddiad. Gwnaed y diwygiadau yng ngoleuni diben y polisi a gyhoeddwyd yng nghyfarfod y cyngor ar 3 Mawrth 2022 i geisio symud i isafswm cyflog o £10 yr awr, ac i geisio lleihau baich Treth y Cyngor ar aelwydydd.

Gofynnodd Arweinydd y Cyngor i’r Swyddog Adran 151 a oedd y diwygiadau'n briodol ac yn fforddiadwy.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod y newidiadau arfaethedig i gyflog yn fforddiadwy o fewn symiau cyllideb a ddarparwyd eisoes ond yn ei farn ef, roedd y costau ardoll a chost Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar y lefelau isaf yr oedd eu hangen i’w bodloni. Fodd bynnag, gellir gwneud diwygiadau i'r gyllideb.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori ffurfiol a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r Cynigion Cyllidebol yn Atodiad D yr adroddiad yn ogystal â'r sefyllfa o ran cyllidebau dirprwyedig fel a nodwyd yn Adrannau 4.15 a 4.17 yr adroddiad.

2) Nodi Cyfanswm y Gofyniad Ariannu presennol a grybwyllwyd yn Adran 4.6 yr adroddiad ac, yn unol â'r camau gweithredu posib a nodwyd yn Adrannau 9 a 10 yr adroddiad, gytuno ar gamau gweithredu i gyflawni Cyllideb Refeniw gytbwys ar gyfer 2022-2023.

3) Yn ogystal ag adolygiad o gynigion arbed presennol, gwnaeth y Cabinet y canlynol:
a) Adolygu a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn a argymhellir yn yr adroddiad.

b) Adlewyrchu ardoll Awdurdod Tân is i'r swm terfynol a gynghorwyd o £28,000.

c) Lleihau'r ddarpariaeth chwyddiant canolog £1,092,000.

ch) Lleihau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor £300,000.

d) Gwneud gostyngiad sylfaenol o £1,420,000 i'r gyllideb refeniw arfaethedig a gostyngiad canlyniadol i gyfanswm treth y cyngor, a godwyd gyda'r £1,420,000 cyfatebol i leihau'r argymhelliad ar dreth y cyngor i gynnydd o 0.95%.

dd) Cytuno ar lefel treth y cyngor ar gyfer 2022-2023 i'w hargymell i'r cyngor.

4) Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd ac a restrwyd uchod, mae'r Cabinet yn argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

a) Cyllideb Refeniw ar gyfer 2022-2023.

b) Gofyniad y gyllideb ac ardoll treth y cyngor ar gyfer 2022-2023.

**122. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2021/22- 2026/27**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021-2022 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022-2023 i 2026-2027.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021-2022 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2022-2023 – 2026-2027 fel a fanylir yn Atodiadau A, B C, D, E, F a G yr adroddiad.

**123. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - cyllideb refeniw 2022/23.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2022/2023 a chynnydd rhent i eiddo o fewn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**Penderfynwyd** argymell y cynigion cyllidebol canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cynyddu rhenti'n unol â pholisi newydd Llywodraeth Cymru fel a fanylwyd yn Adran 3 yr adroddiad.

2) Cymeradwyo ffïoedd, taliadau a lwfansau fel a amlinellir yn Adran 4 yr adroddiad.

3) Cynigion y gyllideb refeniw fel a nodwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

**124. Cyfrif Refeniw Tai - cyllideb a rhaglen gyfalaf 2021/22 - 2025/2026**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 a’r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar y cyd a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021-2022 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022-2023 – 2025-2026.

**Penderfynwyd** argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2020-2021.

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2022-2023 – 2025-2026.

3) Lle caiff cynlluniau unigol fel y'u dangosir yn Atodiad B eu rhaglennu dros y cyfnod 4 blynedd a ddisgrifir yn yr adroddiad, caiff y rhain eu dilyn a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y 4 blynedd.

## 125. Adolygiad blynyddol o daliadau (gwasanaethau cymdeithasol) 2021/22

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd Cymunedol adroddiad, sef yr adolygiad blynyddol diweddaraf o daliadau gwasanaethau cymdeithasol, gwelliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn a rhestr arfaethedig o daliadau i'w cymhwyso yn 2022/2023.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn canfyddiadau'r adroddiad adolygiad blynyddol o daliadau.

2) Bydd cynnydd chwyddiannol o 3% yn cael ei gymhwyso i'r holl daliadau gwasanaethau cymdeithasol a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2022.

3) Cymeradwyo cyhoeddi'r rhestr o daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn berthnasol o 1 Ebrill 2022, ar gyfer y flwyddyn 2022/2023.

## 126. Strategaeth Rheoli Coed.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu strategaeth ar gyfer rheoli coed ar/sy'n effeithio ar dir/eiddo dan berchnogaeth y cyngor, ac yn nodi dyletswyddau'r cyngor mewn perthynas â choed a warchodir.

**Penderfynwyd:**

1) Cytuno ar y Strategaeth Rheoli Coed.

2) Cynnal ymarfer mapio i nodi safleoedd/parthau posib ar gyfer plannu ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn amodol ar argaeledd cyllid a chynhaliaeth yn y dyfodol.

## 127. Hyrwyddo Polisi Credyd Fforddiadwy

Cyflwynodd y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu strategaeth sy'n ymgorffori'r gwaith o hyrwyddo credyd fforddiadwy. Cyflwynodd y Cynghorydd P Downing yr adroddiad.

**Penderfynwyd:**

3) Mabwysiadu'r Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy sydd ynghlwm fel Atodiad A yr adroddiad.

## 128. Ceisiadau am Gyllid y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladu a Gofal Integredig.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn ceisio:

i) Cymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer ceisiadau'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladu.
ii) Cymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer cais i'r Gronfa Gofal Integredig.

iii) Ymrwymo'r cynlluniau i'r Rhaglen Gyfalaf yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r ceisiadau am gyllid Datblygu Tir ac Adeiladu a nodir yn Adran 2.2 o'r adroddiad.

2) Cymeradwyo'r cais i'r Gronfa Gofal Integredig a nodir yn Adran 3.3 o'r adroddiad.

3) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Prif Swyddog Cyllid ymrwymo i unrhyw gytundebau sy'n angenrheidiol i sicrhau y caiff y prosiectau eu cyflawni ac i ddiogelu buddiannau'r cyngor.

4) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyllid i adennill yr holl wariant sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiectau gan Lywodraeth Cymru.

5) Caiff unrhyw benderfyniadau pellach sy'n berthnasol i'r cyllid uchod eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau, a chaiff cynlluniau eu nodi a'u cymeradwyo trwy adroddiad blynyddol Cyllideb Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai.

## 129. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Parkland | James Harris |
| 2) | Ysgol Gyfun Treforys | David Lloyd-Jones |

## 130. Fframwaith Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd Cymunedol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yr adroddiad.

## 131. Adroddiad FPR7 - Grant Creu Lleoedd - Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol

("Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf") er mwyn ymrwymo i ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi bod y cais am grant a nodir yn yr adroddiad wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fel rhan o rownd ymgeisio cyfalaf 2021/2022 ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

2) Caiff y cynlluniau perthnasol a'u goblygiadau ariannol eu cymeradwyo, a chaiff y cynlluniau eu hawdurdodi i'w hychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf.

3) Nodi a chymeradwyo'r cytundeb rhyng-awdurdod a baratowyd i amddiffyn safbwynt y cyngor fel Awdurdod arweiniol wrth ddosbarthu'r cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r cynlluniau ar sail ranbarthol.

4) Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyfreithiol, ymrwymo i'r cytundeb ar ran y cyngor.

## 132. Ardrethi Busnes - Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro (Cymru) 2022/23.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ac yn ceisio mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch dros dro sy'n berthnasol i Ardrethi Busnes, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023.

**Penderfynwyd:**

5) Nodi manylion y cynllun fel y'u nodir yn yr adroddiad.

6) Mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi a amlinellir yn yr adroddiad ar gyfer 2022-2023.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.57 am

**Cadeirydd**

| Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 Chwefror 2022 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59 ar 23 Chwefror 2022 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 24 Chwefror 2022 |